# BETI RHYS YN COFIO AM TWYNOG A RHYMNI

LLAWENYCHAF wrth feddwl for yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Rymni yn 1990. Daw'r enw Rhymni â llu o atgofion melys i 'mryd, oherwydd un o ddigwyddiadau mawr fy mhlentyndod oedd cael mynd yn y trên i Rymni o Bort Talbot, lle yr oeddym yn byw ar y pryd, i dreulio gwyliau ar aelwyd rhieni fy mam, Twynog ac Elin Jeffreys a oedd yn byw ym Mhreswylfa, High St., Rhymni.

Byddai'n rhaid inni newid trên sawl gwaith yn ystod y daith. Ym Mhontypridd byddai fy nhad yn egluro inni mai hon oedd gorsaf fwyaf Cymru. Yna dangosai inni o'r trên y Garreg Siglo ar y mynydd tu allan i Bontypridd, hen garreg a ddaeth yn enwog gyda syniadau rhamantus Iolo Morganwg.

Cofiaf am Dwynog Jeffreys, tad fy mam, yn y blynyddoedd 1910 a 1911 yn garcharor i'r cryd cymalau, yn methu â symud llaw na throed, nac un o'i gyhyrau. Gwnâi fy magu bopeth drosto, ei godi o'r gwely a'i wisgo bob bore; yna'i osod yn ei gadair olwyn yn ei lyfrgell am y dydd.

Ystafell oedd y llyfrgell yn llawn o silffoedd o lyfrau o'r llawr i fyny at y nenfwd. Weithiau ar ddiwrnod braf yn yr haf gosodai fy mamgu ef yn y gadair olwyn i eistedd ar y lawnt fechan o flaen y drws ffrynt.

Yno byddai Twynog wrth ei fodd yn sgwrsio â'r llu o gyfeillion a ddigwyddai fynd heibio. Yr oedd yn gymdeithaswr heb ei ail. Fy mamgu a fyddai'n dadwisgo'i gŵr ac yn ei roi yn ei wely bob nos yn yr ystafell gefn ar y llawr.

Yr oedd gan Dwynog bibell wen hir, pibell warden eglwys, yn cyrraedd at ei benliniau. Am fod ei ddwylo wedi eu cloi i fyny â'r cryd cymalau byddai'n rhaid i ryw aelod arall o'r teulu ei llenwi a'i thanio cyn iddo allu mwynhau ei fwgyn.

Yr oedd ganddo ei gwpan de ei hun a phig arni fel sydd ar debot a byddai mamgu yn rhoi ei fwyd iddo fel y gwna mam i'w phlentyn. Pan ddôi i aros atom ni i Bort Talbot teithiai ef yn y Guard's Van a gweddill y teulu yng nghorff y trên.

* * *

GANED Twynog ym mis Chwefror, 1844, yn Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin, yn ymyl Llyn y Fan Fach. Treuliodd oriau lawer, yn blentyn, yn arwain ymwelwyr o amgylch llynnoedd a bannau'r ardal, yn adrodd iddynt yr hen chwedlau traddodiadol.

Un o'i hoff hanesion oedd y stori am y Ladi Wen. Bu llawer o drigolion yr ardal yn credu hyd yn ddiweddar fod y Ladi yn dal i godi o'r llyn bob blwyddyn ar y Sul cyntaf o Awst. Dyma'r stori.

Un dydd pan oedd bugail ieuanc o fferm Esgair-llaethdy yn gwylied ei braidd gerllaw Llyn y Fan Fach, yn sydyn gwelodd dair geneth dlos yn codi i wyneb y llyn ac yn nesáu ato. Ceisiodd ddal un ohonynt; methu a wnaeth.

Digwyddodd yr un peth drannoeth. Pan oeddent ar ddiflannu o dan y dyfroedd gwaeddodd y tair gyda'i gilydd yn wawdlyd:

*Cras dy fara,*
*Nid hawdd ein dala.*

Drannoeth llyncodd y llanc ddarn o fara llaith y daeth o hyd iddo'n nofio ar wyneb y llyn a'r diwrnod wedyn llwyddodd i'w dal. Wedi ychydig o ymddiddan magodd ddigon o hyder i ofyn i un ohonynt a ddôi'n wraig iddo. Cydsyniodd hi ar yr amod y gallai ef ei gwahaniaethu hi oddi wrth y ddwy arall.

Yr oedd y tair mor debyg i'w gilydd fel yr oedd y dasg hon yn amhosibl ei chyflawni, ond yr oedd y bugail wedi sylwi bod yr eneth a ddewisasai ef wedi clymu carrai ei hesgidiau yn wahanol i'r ddwy arall, ac ni chafodd ddim anhawster felly i ddewis yr un iawn.

Dilynodd yr eneth ddewisedig y bugail ieuanc i Esgair-llaethdy ac wrth gerdded ymlaen galwodd hi i fyny o'r llyn saith o wartheg, tri ych ac un tarw i ddod gyda hi i'r fferm.

Un o amodau'r briodas oedd bod y wraig yn cael aros yn Esgair-llaethdy nes y byddai ei gŵr yn ei tharo dair gwaith. Bu'r ddau'n byw'n hapus am flynyddoedd.

Cawsant dri mab a ddaeth wedyn yn enwog fel Meddygon



*Twynog.*

Myddfai, ond un diwrnod pan oedd y gŵr yn paratoi i fynd i'r ffair danfonodd ei wraig i'r cae i nôl y ceffyl. Yr oedd hi mor hir yn ymdroi yn y tŷ cyn mynd allan nes iddo golli ei dymer a dweud wrthi'n swrth, 'Dos, dos, dos,' gan ei tharo'n ysgafn dair gwaith â'i faneg.

Yr oedd y cytundeb wedi ei dorri. Dychwelodd y wraig i'r llyn ar unwaith, gan alw ar ei hôl yr anifeiliaid i'w chanlyn. Er bod yr ychen yn aredig yn y cae ar y pryd, ufuddasant i'r alwad gan dynnu'r aradr ar eu hôl.

Mae'r gŵys a wnaeth yr aradr i'w gweld o ben y mynydd heddiw, yn cyrraedd o Esgair-llaethdy i Lyn y Fan.

Ar ôl hyn byddai'r Ladi'n arfer codi'n achlysurol o'r llyn i gyfarfod â'i thri mab mewn cwm ar y mynydd a elwid yn Gwm y Meddygon. Yno dysgodd iddynt gyfrinachau Meddygaeth.

* * *

i dud 17


LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

## CYHOEDDIADAU NEWYDD

**The Diary of Francis Kilvert, June—July 1870**
ed. by Dafydd Ifans
163t. 8 llun clawr caled
£15.00 (£16 · 00 drwy'r post)
ISBN 0—907158—40—4

**Archdeaconry of Brecon Probate Records,**
Vol. 1: Pre—1660 compiled by Nansi C. Jones
(NLW probate indexes No. 2)
238t. clawr caled
£10 · 00 (£12 · 50 drwy'r post)
ISBN 0—907158—39—0

**Subject Index to Welsh Periodicals 1981—1984**
Mynegai testunol i 99 o gylchgronau Cymraeg a Saesneg a gyhoeddwyd yng Nghymru
218t. clawr meddal
£19.50 (yn cynnwys cludiant)
ISSN 0140—265X

**Llyfryddiaeth Ieuan Ebblig: A Checklist of the Publications of Evan Griffiths, Swansea between 1830 and 1867**
Owen Morris
[98]t. clawr meddal
£1 · 00 (drwy'r post £2 · 00)

**Llyfr Aneirin**
Un o 'Bedwar Llyfr Hynafol Cymru'
Argraffiad ffacsimile lliw o'r llawysgrif gyda rhagymadrodd dwyieithog gan Daniel Huws
150t. mewn cas
Rhwymiad lliain £30 · 00 (£32 · 00 drwy'r post)
Cyhoeddwyd ar y cyd gyda Chyngor Sir De Morgannwg
ISBN 0—907158—33—1

**Cariad at ein Gwlad;**
**A Discourse on the love of our country**
Richard Price
Y Cyfieithiad Cymraeg gan P A L Jones
175t. clawr meddal
£4 · 95 ( drwy'r post £6 · 00)
ISBN 0—90715842—0

Cyhoeddir *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* ddwywaith y flwyddyn. Pris rhifyn — £4 · 00 + cost post; tanysgrifiad blwyddyn — £8 · 00 post rhad.

Ymholiadau i'r Ysgrifennydd,
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, Dyfed,
SY23 3BU. Ffôn: 0970 623816